# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

# ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER WARDIAU CYNGOR CYMUNED TRELALES

# CYLCH GORCHWYL

## Rhagarweiniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal adolygiad o drefniadau etholiadol er mwyn ystyried cais a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Trelales i ailedrych ar y cydraddoldeb rhwng nifer y Cynghorwyr Cymuned yn ei Wardiau Cymunedol. Y wardiau presennol yn Trelales yw Cefn Glas 1 gyda 4 aelod (1,412 o etholwyr), Cefn Glas 2 gyda 4 aelod (1,857 o etholwyr) a Threlales/Bryntirion gyda 5 aelod (7,026 o etholwyr).

Cam cyntaf yr adolygiad yw gofyn i bob parti sydd â diddordeb ystyried y cynnig yma a chyflwyno eu sylwadau o gefnogaeth neu wrthwynebiad i'r newid hwn. Yna bydd pob cyflwyniad yn cael ei ystyried a chaiff cynigion drafft eu llunio. Bydd y rhain ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus pellach. Os na fydd gwrthwynebiadau, yna caiff yr argymhellion terfynol eu llunio, eu cyhoeddi a'u mabwysiadu.

Bydd yr adolygiad yn dechrau ar 26 Mehefin 2026 gyda'r argymhellion terfynol wedi eu hamserlennu’n amodol i gael eu cyflwyno i'w mabwysiadu ym mis Ionawr 2027.

## Pam ydym ni’n cynnal yr adolygiad hwn?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn cais swyddogol gan Gyngor Cymuned Trelales i adolygu cymhareb y Cynghorwyr Cymuned gyda'r nod o ddiwygio'r anghydraddoldeb rhwng y wardiau.

## Beth yw nod yr adolygiad?

Bwriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw sicrhau bod llywodraethu cymunedol yn adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r gymuned a'i fod yn effeithiol ac yn gyfleus.

## Beth ellir ei ystyried o dan yr adolygiad hwn?

Ni fydd yr adolygiad hwn yn edrych ar ddim ond nifer y Cynghorwyr Cymuned yn wardiau Cyngor Cymuned Trelales yn unig. Mae hyn oherwydd amserlenni, gan y bydd yr Etholiad Lleol yn digwydd ym mis Mai 2027 a rhaid cwblhau’r adolygiad erbyn cyhoeddi'r Hysbysiad o Etholiad.

## Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad hwn?

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gyfrifol am gynnal yr adolygiad yn ei ardal. Bydd yn ystyried yr holl sylwadau a wneir ym mhob cam o'r broses adolygu. Cynhelir yr adolygiad o dan Adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Ar ôl cwblhau'r adolygiad, gall y Cyngor gynnig a gwneud newidiadau i nifer y Cynghorwyr sy'n cynrychioli Cymuned Trelales.

## Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chyflwyniadau

Wrth gynnal yr adolygiad, mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gymryd y cyfryw gamau ag y mae'n eu hystyried yn addas i sicrhau bod pobl a allai fod â diddordeb yn yr adolygiad yn cael gwybod am y cynnig i'w gynnal ac yn cael gwybod am unrhyw gynigion neu argymhellion drafft. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn addo cyflawni'r dyletswyddau hyn drwy ysgrifennu at y canlynol:

- Y Cyngor Cymuned, sef Cyngor Cymuned Trelales
- Y Cynghorwyr sy’n cynrychioli Adrannau Etholiadol Cefn Glas, a Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr
- Aelod y Senedd sy’n cynrychioli Etholaeth Pen-y-bont Bro Morgannwg,
- Yr Aelod Seneddol sy’n cynrychioli Etholaeth Seneddol Pen-y-bont ar Ogwr, a
- Changhennau lleol o bleidiau gwleidyddol.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn rhoi rhybudd swyddogol ar wahanol gamau o'r adolygiad, yn adneuo copïau o adroddiadau a dogfennau yn Swyddfa Etholiadau'r Cyngor ac yn gosod dogfennau priodol ar wefan gorfforaethol y Cyngor.

Ceir gwneud sylwadau a chyflwyniadau ar ddau gam yn yr adolygiad, sef yr Ymgynghoriad Cychwynnol a'r Cynigion Drafft.

Rhoddir yr ystyriaeth ddyledus i bob sylw a chyflwyniad yn yr adolygiad os byddant yn cwrdd â'r meini prawf canlynol: -

- Dylid derbyn sylwadau ar y ffurflen gyflwyniadau pro-forma neu ffurflen debyg.

- Dylid derbyn sylwadau erbyn hanner nos ar y dyddiad cau a amserlennwyd.

- Dylid derbyn pob sylw gydag enw a chyfeiriad sy'n nodi'r anfonwr. Ni dderbynnir cyflwyniadau dienw, er na chaiff manylion personol aelodau'r cyhoedd eu cyhoeddi. Caiff cyflwyniadau gan gyrff cynrychioliadol ac unigolion fel Cynghorwyr ac Aelodau'r Senedd ac yn y blaen eu henwi yn yr adroddiad.

- Pan fo sefydliad neu unigolyn yn gwneud cyflwyniadau ynghylch y cynnig, dylent ddangos sut mae naill ai cynnal y status quo neu wneud newidiadau yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

- Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyhoeddi ei argymhellion cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac yn cymryd y camau y mae'n eu hystyried yn ddigonol i sicrhau bod unigolion a allai fod â diddordeb yn yr adolygiad, gan gynnwys pob unigolyn a wnaeth gyflwyniad dilys, yn cael gwybod am yr argymhellion a'r rhesymau y tu ôl iddynt.

**Ystadegau**

Bydd y Cyngor yn defnyddio ystadegau poblogaeth yn seiliedig ar y Gofrestr Etholwyr fel y'i cyhoeddwyd ar 01/12/2025. Caiff y diweddariadau misol sy'n digwydd rhwng mis Ionawr a mis Medi hefyd eu hystyried.

Cymerir ystadegau rhagolygon hefyd i ystyriaeth, fel y cânt eu cyflenwi gan adran gynllunio'r Cyngor. Os bydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor wedi cael ei gwblhau cyn cyhoeddi cynigion drafft yr adolygiad hwn, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y cynlluniau datblygu rhagamcanol sydd wedi eu cynnwys yn y CDLl.

**Data etholwyr/wardiau**

Wrth osod y gymhareb o gynghorwyr i etholwyr, bwriedir defnyddio canllawiau Ysgol Fusnes Aston a gyhoeddwyd ym 1992 i roi lefel o hyblygrwydd wrth benderfynu ar y cymarebau. Gwelir eu harweiniad yn Nhabl 2 isod: -

**Cymhareb Cynghorwyr i Etholwyr**

| Etholwyr | Y Cynghorwyr a Ddyrannwyd |
|---|---|
| Llai na 500 | 5 – 8 |
| 501 – 2,500 | 6 – 12 |
| 2,501 – 10,000 | 9 – 16 |
| 10,001 – 20,000 | 13 – 27 |
| Mwy na 20,000 | 13 - 31 |

**Yr Amserlen ar gyfer yr Adolygiad**
Bydd yr adolygiad yn dechrau ar y 25ain o Fehefin 2026 gyda'r argymhellion terfynol yn cael eu hamserlennu'n amodol cyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2027. Byddai unrhyw newidiadau a fyddai'n digwydd o ganlyniad i'r broses adolygu wedyn yn dod i rym erbyn Etholiadau Llywodraeth Leol sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer mis Mai 2027.

| **Cam gweithredu** | | **Cyfnod** | **Dechrau** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|---|
| Adrodd wrth y Cyngor llawn | Y Cyngor yn cymeradwyo egwyddor yr adolygiad a'r Cylch Gorchwyl | | 25/06/2026 | |
| Yr Ymgynghoriad a'r Ymchwiliad Cychwynnol | Gwahodd sylwadau cychwynnol oddi wrth:<br>• Cynghorau Tref a Chymuned, sef Cyngor Cymuned Trelales<br>• Aelodau CBSP<br>• Aelodau Seneddol<br>• Aelodau'r Senedd<br>• Grwpiau Lleol a phartïon sydd â diddordeb megis busnesau lleol, cymdeithas preswylwyr lleol, cyrff cyhoeddus a gwirfoddol lleol megis ysgolion a byrddau iechyd.<br>Cyhoeddi cynigion ar wefan CBSP | 6 Wythnos | 26/06/2026 | 7/08/2026 |
| Ystyried y cyflwyniadau a dderbyniwyd ac Adroddiad y Cynigion Drafft | Ystyried canlyniadau'r ymchwiliad a'r holl sylwadau a dderbyniwyd. Ysgrifennu adroddiad y cynigion drafft, cyfieithu | 4 Wythnos | 10/08/2026 | 07/09/2026 |
| Cyhoeddi'r Cynigion Drafft | Cyhoeddi'r cynigion drafft ar gyfer ymgynghoriad pellach gyda'r holl ymgyngoreion fel uchod . | 6 Wythnos | 08/09/2026 | 19/10/2026 |
| Ystyried y cyflwyniadau a dderbyniwyd ac ysgrifennu'r argymhellion terfynol | Ystyried canlyniadau yr holl gyflwyniadau a sylwadau a dderbyniwyd, ysgrifennu'r argymhellion terfynol a chyfieithu | 4 Wythnos | 19/10/2026 | 16/11/2026 |
| Adroddiad i'r Cyngor llawn | Cadarnhau yn y cyngor llawn | | 16/12/2026 | |
| Cyhoeddi'r argymhellion terfynol | | | 17/12/2026 | |
| Y Prif Gyngor yn gwneud y Gorchymyn | | 6 Wythnos ar ôl cyhoeddi'r argymhellion terfynol | Ionawr 2027 | |

**Sut i gysylltu â ni**

Os byddwch yn dymuno cyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar gyfer yr adolygiad hwn, anfonwch hwy i:

Y Swyddfa Etholiadau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Fel arall, gallwch e-bostio eich cyflwyniad i: CGR@bridgend.gov.uk

Caiff dogfennau allweddol ac adroddiadau ar gyfer yr adolygiad hwn hefyd eu cyhoeddi ar-lein, drwy wefan y Cyngor.

Os bydd arnoch eisiau unrhyw wybodaeth bellach, neu angen eglurder ynghylch y broses adolygu, cysylltwch â:

Y Swyddfa Etholiadau
Ffôn: 01656 643116
E-bost: CGR@bridgend.gov.uk

**Atodiad A**

**Crynodeb o'r Etholwyr**

| Y Cyngor Cymuned | Etholwyr y Cyngor | Nifer y cynghorwyr ar hyn o bryd | Cymhareb Cynghorydd/ Etholwyr | Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cefn Glas 1 | 1,412 | 4 | 353 | -33% |
| Cefn Glas 2 | 1,857 | 4 | 464 | -12% |
| Bryntirion a Threlales | 7,026 | 5 | 1,405 | 167% |